Radioactive Waste Management



# Radioactive Waste Management Limited
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19

Ein gweledigaeth ni yw creu dyfodol mwy diogel drwy reoli gwastraff ymbelydrol yn effeithiol, er mwyn amddiffyn pobl a'r amgylchedd.

# Gwybodaeth Gorfforaethol

**Y Cyfarwyddwyr[1]**
Malcolm Morley OBE (Y Cadeirydd)
Mike Bowman
John Corderoy
Peter Lock
Ann McCall
Bruce McKirdy
Corhyn Parr
David Prout CB
Claes Thegerström
Andrew Van Der Lem
Karen Wheeler CBE

**Yr Ysgrifennydd**
Elizabeth Hodgson

**Yr Archwilydd**
Mazars LLP
One St Peter's Square
Manceinion M2 3DE

**Swyddfa Gofrestredig**
Herdus House
Westlakes Science & Technology Park
Moor Row
Cumbria
CA24 3HU

*[1] Y Cyfarwyddwyr presennol ar ddyddiad yr Adroddiad hwn – darllenwch Adroddiad y Cyfarwyddwyr i gael gwybod pa Gyfarwyddwyr fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn.*
*Llun o Malcolm Morley, tudalen 4:* ***Brian Thomas Photography***

# Cynnwys

**Datganiad Ein Cadeirydd** .......... 4

**Adolygiad y Rheolwr Gyfarwyddwr** .......... 6

**Gwybodaeth am RWM** .......... 8

**Nod, Gweledigaeth a Gwerthoedd** .......... 9

**Adroddiad Strategol** .......... 10

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr** .......... 16

- Datganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr .......... 20
- Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol .......... 22

**Datganiadau Ariannol 2018-2019** .......... 24

- Y Datganiad Incwm .......... 25
- Y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr .......... 26
- Y Fantolen .......... 27
- Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti .......... 28
- Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol .......... 29

# Datganiad Ein Cadeirydd

**Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Cadeirydd Radioactive Waste Management Limited (RWM). Yn ystod y flwyddyn honno, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019 fod proses newydd yn cael ei lansio ar gyfer lleoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) yng Nghymru a Lloegr.**

Mae gwaredu daearegol yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel yr ateb mwyaf diogel i waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Mae CGD yn hanfodol er mwyn gwaredu gwastraff etifeddol a gwastraff a gaiff ei gynhyrchu gan weithgareddau niwclear ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yn sgil lansio'r broses leoli newydd sy'n cael ei llywio gan ganiatâd y gymuned, mae RWM yn cydnabod bod angen iddo adeiladu ar ei arbenigedd technegol a gwyddonol er mwyn datblygu i fod yn gorff cyflawni sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae cydweithio â'r gymuned, a meithrin cysylltiadau hirdymor â chymunedau, yn gwbl ganolog i'r ffordd mae RWM yn gweithredu.

Un o'r heriau sylweddol wrth gydweithio â'r gymuned yw newid argraffiadau pobl o wastraff niwclear. Ni fydd RWM yn cyflwyno cynigion ar gyfer CGD oni bai ei fod yn hyderus bod y CGD yn ddiogel. Mae hefyd yn ffaith na fydd unrhyw gynnig ar gyfer CGD yn cael ei wireddu oni bai fod y Rheoleiddwyr annibynnol yn gwbl bendant ei fod yn ddiogel.

Mae CGD yn brosiect seilwaith cenedlaethol gwerth biliynau o bunnoedd, sy'n gallu cynnig buddion sylweddol i gymuned yn y tymor hir. Rwy'n edrych ymlaen at weld RWM yn gweithio gyda chymunedau i weld sut gellir defnyddio'r buddsoddiad sydd ar gael i sicrhau buddion i'r gymuned, gan gynnwys swyddi, gyrfaoedd, seilwaith, addysg a sgiliau.


Mae RWM yn parhau i roi cyngor ac arweiniad i gynhyrchwyr gwastraff ar becynnu gwastraff ymbelydrol. Fel rhan o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), mae'n gwneud gwaith i gyfrannu at y Strategaeth Rheoli Gwastraff Integredig. Mae rôl RWM yn hollbwysig i gyfrannu at nod yr NDA, ac felly hefyd ei rôl i helpu i sicrhau bod Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Bargen y Sector Niwclear yn cael eu cyflawni.

Dyma gyfnod cyffrous i RWM, ac rwy'n ffyddiog y byddwn ni – drwy weithio fel rhan o 'One NDA', a gyda chymunedau a rhanddeiliaid allanol – yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno CGD.

Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr ar y Bwrdd, y Tîm Gweithredol, cydweithwyr yn RWM a'r NDA ac mewn nifer o sefydliadau allanol sydd wedi cefnogi RWM.



**Yr Athro Malcolm Morley OBE**
Y Cadeirydd



# Adolygiad y Rheolwr Gyfarwyddwr

**Sefydlwyd Radioactive Waste Management Limited (RWM) yn 2014 fel is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Ein gweledigaeth ni yw creu dyfodol mwy diogel drwy reoli gwastraff yn effeithiol, er mwyn amddiffyn pobl a'r amgylchedd. Ein nod yw cyflwyno Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) a chynnig atebion ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol.**

Ers 2014, rydym wedi bod ar daith o newid sefydliadol. Roedd polisi a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth y flwyddyn honno wedi amlinellu fframwaith ar gyfer rhoi proses gwaredu daearegol ar waith, a honno'n broses a fyddai'n cael ei harwain gan ddatblygwyr ac a fyddai'n seiliedig ar gydweithio â chymunedau a fyddai'n fodlon derbyn y CGD. Roedd y ddogfen bolisi yn mynnu bod tri cham yn cael eu cwblhau cyn y gellid lansio proses newydd i leoli CGD:

- Bod gwaredu daearegol yn cael ei ddynodi'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- Bod polisïau a phrosesau ar gyfer gweithio gyda chymunedau yn cael eu sefydlu.
- Bod Sgrinio Daearegol Cenedlaethol yn darparu gwybodaeth ddibynadwy am ddaeareg Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n berthnasol i waredu daearegol.

Roedd 2018-19 yn flwyddyn lwyddiannus dros ben – cafodd y tri cham hynny eu cwblhau, cyhoeddwyd dogfen bolisi newydd, a lansiwyd proses i leoli CGD yng Nghymru a Lloegr. Roeddem hefyd wedi cyrraedd cam arwyddocaol yn ein datblygiad fel sefydliad cyflawni – yn barod i ddechrau ar gam nesaf y rhaglen CGD. Disgwylir y bydd y cam hwnnw'n cymryd hyd at bum mlynedd, ac mae'n cynnwys cydweithio â chymunedau a chynnal astudiaethau dichonoldeb mewn safleoedd posib.


Fel sefydliad, rydym hefyd mewn sefyllfa dda i wneud mwy o waith ar ddatblygu atebion ar gyfer rheoli gwastraff. Yn gyntaf, ar lefel strategol, gan weithio gyda chanolfan gorfforaethol yr NDA ar strategaeth rheoli gwastraff integredig – dod o hyd i'r dulliau gorau o reoli gwastraff ar draws yr ystad. Yn ail, gwneud gwaith ar raglen gynyddol o asesiadau o'r broses waredu. Wrth i'r cyfleusterau niwclear gael eu datgomisiynu ac wrth i'r safleoedd gael eu clirio, mae'r asesiadau hyn yn cynnig sicrwydd y bydd y gwastraff wedi'i becynnu yn wastraff addas i'w waredu mewn CGD.

Rwy'n ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnydd uchod. Mae wedi gofyn am ymdrech enfawr, a dylai fod yn destun balchder i bob un ohonom. Ond, fyddwn ni ddim yn llaesu dwylo. Mae eleni yn ddechrau ar broses hir a fydd yn galw am ragor o newidiadau sefydliadol. Gallwn ni ddisgwyl wynebu rhwystrau heriol, a bydd angen i ni fod yn wydn.

Mae angen i ni alluogi pobl i berfformio ar eu gorau, ac er mwyn gwneud hynny mae angen i ni sicrhau bod ein sefydliad yn lle gwych i weithio ynddo. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig iawn i ni, ac mae gennym raglen waith brysur i fynd i'r afael â materion pwysig sydd wedi dod i'r amlwg yn ein harolygon staff. Mae aelodau grŵp yr NDA ar y lefel uchaf, a holl arweinwyr yr NDA, yn cefnogi hyn. Mae'n allweddol i'n llwyddiant, a byddwn yn parhau i roi'r flaenoriaeth haeddiannol i'r mater hwn.



**Bruce McKirdy**
Y Rheolwr Gyfarwyddwr


S.W.L. 45 Tonne
S23
S 23

# Gwybodaeth am RWM

Mae Radioactive Waste Management Limited (RWM) yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Mae'r NDA yn gyfrifol, dan Ddeddf Ynni 2004, am lanhau y safleoedd niwclear sifil sydd dan berchnogaeth gyhoeddus - gan gynnwys rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

Ffurfiwyd RWM ym mis Ebrill 2014 er mwyn cyflwyno Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD), a chynnig atebion ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Mae'r tîm yn cynnwys tua 160 o bobl, ac mae'n dwyn ynghyd arbenigwyr ym maes diogelwch, diogeledd, gwyddoniaeth, peirianneg, rheoli rhaglenni a chydweithio â'r gymuned.

## Gwaith y Deyrnas Unedig i ddelio â gwastraff ymbelydrol

Mae technoleg niwclear yn rhan o'n bywydau ers dros 60 mlynedd, ac mae'n cael ei defnyddio i gynhyrchu ynni, mewn diwydiannau, ym myd meddygaeth ac yn y maes amddiffyn. Heddiw, mae bron i un rhan o bump o drydan y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu gan ynni niwclear.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi creu gwastraff ymbelydrol y mae angen i ni ei reoli'n ofalus.

Mae CGD yn cynnwys rhwydwaith o dwneli a storfeydd o dan y ddaear sydd wedi cael eu hadeiladu i lefel beirianegol uchel i waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd am byth, er mwyn sicrhau na fydd lefelau niweidiol o ymbelydredd fyth yn cyrraedd yr amgylchedd ar yr wyneb. Cydnabyddir yn rhyngwladol mai gwaredu daearegol yw'r ateb hirdymor mwyaf diogel; bydd yn creu swyddi ac yn sicrhau buddsoddiad i'r gymuned a fydd yn gartref i'r cyfleuster.

## Polisi'r Llywodraeth ar y broses o ddewis safle

Mae'r broses o ddewis safle ar gyfer CGD yn un sy'n seiliedig ar ganiatâd. Felly, er mai RWM fydd yn arwain y Broses Leoli, bydd yn rhaid iddo gael caniatâd y gymuned cyn y gallwn ni wneud cais am y trwyddedau a'r hawliau i adeiladu a gweithredu CGD. Nod RWM yw dod o hyd i safle addas, a chymuned a fydd yn penderfynu ei hun a yw'n fodlon bod yn gartref i'r CGD.






# Gweledigaeth, Nod a Gwerthoedd

Rydym ni wedi cael ein penodi gan y Llywodraeth i gynllunio ar gyfer CGD, ac i'w adeiladu. Byddwn yn penodi contractwyr sydd â'r sgiliau arbenigol angenrheidiol i'n helpu ni gyda'r gwaith.

Ein **gweledigaeth** ni yw creu dyfodol mwy diogel drwy reoli gwastraff ymbelydrol yn effeithiol, er mwyn amddiffyn pobl a'r amgylchedd.

Ein **nod** yw cyflwyno CGD a chynnig atebion ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol.

Rydym wedi sefydlu cyfres o bedwar o **werthoedd** craidd sy'n disgrifio'r math o sefydliad rydym ni am fod. Rydym yn mynd ati i ddefnyddio'r gwerthoedd hyn wrth ddatblygu ein sefydliad. Rydym yn ystyried y gwerthoedd hyn wrth asesu pa mor dda rydym yn perfformio, fel unigolion ac fel sefydliad.

## Diogel

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau uchaf o ran diogelwch, diogeledd ac amddiffyn yr amgylchedd.

## Proffesiynol

Rydym yn arbenigwyr yn ein maes, ac yn gweithredu'n onest ac yn effeithlon i gynnig yr atebion gorau.

## Cydweithio

Rydym yn agored ac yn cyfathrebu mewn ffordd syml sy'n gwella dealltwriaeth ac yn hybu cydweithio.

## Dysgu

Rydym yn dysgu'n barhaus, yn rhannu gwybodaeth, ac yn meithrin cysylltiadau cryf sydd o fudd i'r ddwy ochr.

### Rhagor o Wybodaeth

**I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n gweithio a'n nod, ewch i'n gwefan:**

**www.gov.uk/rwm**

# Adroddiad Strategol

**Mae ein hadroddiad strategol yn rhoi trosolwg o berfformiad Radioactive Waste Management Limited yn 2018-19, ac yn edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf.**

Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) i lanhau gwaddol niwclear sifil y DU. Mae'r NDA yn cyflawni ei waith drwy nifer o gwmnïau trwydded safle a chyrff cyflawni.

Mae RWM yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r NDA, a'i brif amcanion yw cyflawni'r broses gwaredu daearegol a chynnig atebion ar gyfer rheoli gwastraff.

Mae'r gwaith hefyd yn cefnogi amcanion Llywodraeth y Deyrnas Unedig – a nodwyd yn ei Strategaeth Ddiwydiannol – i roi hwb i economi'r wlad, i gynyddu sgiliau technolegol a pheirianneg gwyddonol, ac i gefnogi twf economaidd rhanbarthol. Bydd CGD yn helpu i gyflawni nodau Bargen y Sector Niwclear, sy'n cynnwys gweithio'n agos gyda gweddill yr NDA a'r gadwyn gyflenwi i arloesi a lleihau costau datgomisiynu.

Mae gwaith RWM yn cael ei lywio gan raglen dechnegol a'r broses o ddatblygu'r sefydliad yn barhaus. Mae rhan nesaf yr adroddiad hwn yn edrych ar waith RWM yn 2018-19 yn y meysydd canlynol:

- **Gweithredu polisi'r Llywodraeth ar Waredu Gwastraff Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol.**
- **Gweithio'n frwd gyda chynhyrchwyr gwastraff, gan gynllunio ar gyfer atebion rheoli gwastraff a chyflwyno'r atebion hynny.**
- **Cyflwyno Rhaglen Dechnegol gadarn i gefnogi Rhaglen y Cyfleuster Gwaredu Daearegol a Rheoli Gwastraff.**
- **Datblygu RWM i fod yn sefydliad cyflawni sy'n perfformio ar lefel uchel.**

## Rhagor o Wybodaeth

**Fe wnaethom gyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol newydd eleni, ac mae ar gael i'w llwytho i lawr yn:**

**www.gov.uk/government/organisations/radioactive-waste-management/about**

## Gweithredu polisi'r Llywodraeth ar Waredu Gwastraff Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol

Fe wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi ei bolisi diweddaredig ar waredu daearegol, sef *Implementing Geological Disposal: Working with Communities*[2] ym mis Rhagfyr 2018, i nodi lansiad y broses leoli CGD yn Lloegr. Yng Nghymru, cafodd y broses leoli ei lansio wrth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei pholisi Gweithio gyda Chymunedau[3] ym mis Ionawr 2019.

I gefnogi'r gwaith o lansio'r broses leoli, ac ymgynghoriad dilynol RWM ar werthuso safleoedd, cyhoeddodd RWM gyfres o ddogfennau ar gyfer cymunedau yng Nghymru a Lloegr:

- **Cyflwyniad ar Waredu Daearegol**[4]
  Canllaw byr ar waredu daearegol, a sut gall cymunedau elwa o gael eu cynnwys yn y broses leoli

- **Canllaw i Gymunedau**
  Mae'r Canllaw i Gymunedau gan RWM – gydag un wedi'i baratoi ar gyfer Cymru[5], ac un ar gyfer Lloegr[6] – yn rhoi gwybodaeth fanwl ynghylch sut bydd RWM yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r cymunedau hynny sy'n cymryd rhan yn y broses leoli. Gallai'r broses leoli gymryd hyd at 20 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd pob math o gefnogaeth ar gael i gymunedau sy'n dymuno gweld beth allai CGD ei olygu iddyn nhw.

  Mae'r canllaw yn awgrymu sut byddai modd defnyddio cyllid i greu cyfleoedd i ddatblygu'r economi, i wella'r amgylchedd, neu i wella lles y gymuned.

- **Sgrinio Daearegol Cenedlaethol**
  Mae'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r wybodaeth ddaearegol sy'n berthnasol i ddiogelwch hirdymor CGD.

- **Dogfennau'r Ymgynghoriad ar Werthuso Safleoedd**
  Mae'r dogfennau hyn ar gyfer Cymru[7] a Lloegr[8] yn egluro sut bydd RWM yn gwerthuso lleoliadau sy'n dod yn rhan o'r broses leoli.

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddogfennau RWM ynghylch gwerthuso safleoedd. Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliodd RWM 14 o ddigwyddiadau mewn wyth lleoliad yn Lloegr, gan groesawu dros 130 o bobl. Ar ôl cael adborth gan randdeiliaid, cynhaliwyd pedair gweminar yng Nghymru, gydag oddeutu 70 o gyfranogwyr. Mae RWM wrthi'n dadansoddi'r holl adborth ar hyn o bryd, a byddwn yn cyhoeddi ymateb yn 2019.

---

[2] *https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal-working-with-communities-long-term-management-of-higher-activity-radioactive-waste*
[3] *https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwaredu-gwastraff-ymbelydrol-yn-ddaearegol-gweithio-gyda-chymunedau-allai?_ga=2.38515111.521519993.1570014158-1096698219.1570014158*
[4] *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/771266/Cyflwyniad_ar_Waredu_Daearegol.pdf*
[5] *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/771267/Canllaw_i_Gymunedau.pdf*
[6] *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766914/RWM_CommunityGuidance_ENGLAND.pdf*
[7] *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/771268/Gwerthuso_Safleoedd.pdf*
[8] *https://www.gov.uk/government/consultations/site-evaluation-how-we-will-evaluate-sites-in-england*

### Gweithio'n frwd gyda chynhyrchwyr gwastraff, gan gynllunio ar gyfer atebion rheoli gwastraff a chyflwyno'r atebion hynny

Mae gan RWM rôl allweddol, wrth weithio fel rhan o grŵp ehangach yr NDA, i ddod o hyd i'r dulliau gorau o reoli Gwastraff Uwch ei Actifedd. Mae'r gwaith yma'n rhan o raglen rheoli gwastraff integredig i helpu i reoli'r cyflenwad o Wastraff Uwch ei Actifedd.

Mae'r gwaith yn sicrhau bod atebion cymesur a chost-effeithiol yn cael eu rhoi ar waith, ac nad oes byth unrhyw gyfaddawd ar ddiogelwch.

Mae RWM hefyd wedi arwain rhaglen Asesu'r Broses Waredu a phrosesau ar gyfer cymeradwyo cofnodion pecynnu gwastraff, i sicrhau y bydd pecynnau gwastraff yn cael eu creu mewn ffordd sy'n lleihau'r risg y bydd angen pecynnau newydd neu wneud gwaith ychwanegol sylweddol cyn gwaredu'r gwastraff. Mae tystiolaeth briodol o'r gwaith hwn ar gael drwy gofnodion pecynnau.

### Darparu Rhaglen Dechnegol gadarn i gefnogi Rhaglen y Cyfleuster Gwaredu Daearegol a Rheoli Gwastraff

Mae'r Rhaglen Dechnegol wedi parhau i ddatblygu a llywio dyluniadau'r system gwaredu daearegol ar gyfer creigiau y byddai modd gosod cyfleuster gwaredu ynddynt. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae achosion diogelwch, amgylcheddol a diogeledd wedi cael eu datblygu i danategu'r dyluniadau hynny. Mae hyn yn cynnwys cludo gwastraff i gyfleuster gwaredu daearegol, gweithredu cyfleuster, a diogelwch y cyfleuster ar ôl ei gau.

Mae'r holl ddyluniadau ac achosion diogelwch wedi bod yn destun prosesau craffu rheoleiddiol, ac mae RWM wedi datblygu cynlluniau eleni i fynd i'r afael ag argymhellion rheoleiddwyr.

Mae RWM yn ceisio sicrhau na fydd deunyddiau ymbelydrol sy'n cael eu pecynnu heddiw yn gorfod cael eu hailbecynnu yn y dyfodol. Mae'r dyluniadau a'r achosion diogelwch yn galluogi RWM i weithio'n agos gyda chynhyrchwyr gwastraff ymbelydrol i asesu a yw eu pecynnau gwastraff yn addas i gael eu gwaredu mewn CGD. Maent hefyd yn cael eu defnyddio i asesu addasrwydd safleoedd posib ar gyfer CGD.

Eleni, rhoddwyd cynlluniau ar waith ar gyfer cam nesaf y gwaith technegol y mae angen ei wneud ar gyfer y rhaglen gwaredu daearegol. Bydd hyn yn cynnwys cael caniatâd i wneud tyllau turio i bennu nodweddion y safleoedd posib ar gyfer CGD.

## Datblygu RWM i fod yn sefydliad cyflawni sy'n perfformio ar lefel uchel

I gyflawni un o'r rhaglenni seilwaith mwyaf heriol ac arwyddocaol yn y Deyrnas Unedig, mae angen i RWM ddatblygu i fod yn sefydliad a chanddo arbenigedd a galluoedd ychwanegol, ac mae'n bwysig ei fod hefyd yn cadw ac yn datblygu ei allu technegol craidd ymhellach. Mae angen i RWM ganolbwyntio ar yr elfen allanol, a datblygu cysylltiadau cadarn â chymunedau.

Mae'r tîm wedi cael ei gryfhau â gallu ychwanegol i weithio gyda chymunedau, ac i gyfleu pwysigrwydd CGD.

Mae nifer yr aelodau staff wedi cynyddu 27% eleni (35 o bobl), ac mae'r sefydliad yn gweithio i gael y gallu i gyflawni camau'r rhaglen yn y dyfodol.

Mae asesiad wedi cael ei gynnal o'r galluoedd sefydliadol y mae eu hangen ar gyfer holl gamau rhaglen y Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae'r canlyniadau wedi cael eu mapio mewn rhaglen datblygu sefydliadol ffurfiol. Bydd hyn yn dal yn rhan fawr o'r rhaglen waith dros y blynyddoedd nesaf.

Eleni, diweddarwyd gwerthoedd y sefydliad, sy'n disgrifio'r math o sefydliad y mae RWM eisiau bod. Mae'r gwerthoedd nawr yn cynnwys 'diogel' fel gwerth hollbwysig i adlewyrchu ymrwymiad i gyrraedd y safonau uchaf o ddiogelwch, diogeledd ac amddiffyniad amgylcheddol.

Mae'n hanfodol bod yr holl weithwyr yn cael eu cefnogi'n llwyr er mwyn iddynt hwythau, yn eu tro, allu rhoi o'u gorau. Eleni fe gynhaliodd RWM hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod, a chyflwynodd sesiynau cynefino ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff newydd. Cafodd trefniadau newydd i weithio'n hyblyg eu cyflwyno, a chafodd RWM y Dyfarniad Efydd ar gyfer 'Gwerthuso Amrywiaeth, Cynhwysiant a Thalent' gan Rwydwaith y Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

## Y pum mlynedd nesaf

Dros y flwyddyn diwethaf, mae RWM wedi bod yn canolbwyntio ar helpu i lansio'r broses o leoli CGD yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn canolbwyntio nawr ar godi ymwybyddiaeth o RWM, ei waith a chydweithio â phobl ar waredu daearegol.

Mae cam nesaf y broses yn hollbwysig. Ar ôl y cydweithio cychwynnol, bydd RWM yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i werthuso nifer o safleoedd posib ar gyfer CGD. Bydd y gwerthusiadau hyn yn cynnwys astudiaethau dyluniad ar gyfer safleoedd penodol, dadansoddiadau cychwynnol o ddiogelwch, ac asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd a'r economi er mwyn helpu i weld pa safleoedd fyddai'n gallu bod yn addas.

Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn parhau i weithio gyda phob cymuned i gyflwyno gwybodaeth, i ateb eu cwestiynau ac i helpu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y gymuned. Ar ôl cyfnod o hyd at bum mlynedd, y bwriad yw argymell dau safle i ymchwilio ymhellach iddynt.

Bydd y cam nesaf yn cynnwys defnyddio ymchwiliadau tyllau turio i gasglu data ar briodweddau daearegol dau safle. Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio fel sail i asesiadau dylunio a diogelwch er mwyn gwirio addasrwydd posib y safleoedd. Bydd y gwaith yma'n mynd law yn llaw â'r cydweithio parhaus â'r cymunedau a allai fod yn gartref i'r CGD.

Ochr yn ochr â hyn, bydd y dyluniadau a'r gwaith cynllunio ar gyfer CGD yn symud ymlaen. Felly erbyn dechrau'r cam nodweddu, bydd RWM wedi datblygu dealltwriaeth dda o'r dyluniad posib a'r rhaglen gyflawni angenrheidiol, gan ddibynnu ar y lleoliad a'r safle.

Mae CGD yn system ddiogelwch aml-rwystr i gynnwys ac ynysu'r gwastraff nes nad yw mwyach yn beryglus. Mae'n hanfodol bod cofnodion priodol ar gael o'r holl becynnau gwastraff sydd i fod i fynd i GCD. Felly, mae rhaglen waith yn cael ei datblygu er mwyn cymeradwyo cofnodion ar gyfer yr holl wastraff uwch ei actifedd.

Mae RWM hefyd yn gweithio gyda'r NDA i sefydlu rhaglen waith a fydd yn cefnogi polisi Llywodraeth yr Alban ar wastraff uwch ei actifedd erbyn 2024.

## Model busnes RWM

Mae RWM yn gweithredu fel is-gwmni, wedi'i ariannu'n llawn, o'r NDA, sydd ei hun yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth. Fel datblygwr y CGD, mae angen i RWM greu mynediad at gadwyn gyflenwi sy'n galluogi iddo gomisiynu darpariaeth gwasanaethau angenrheidiol eraill ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau technoleg a seilwaith y bydd eu hangen i ddarparu'r CGD. Bydd yn cadw cymwyseddau a chapasiti strategol allweddol yn fewnol, bydd yn darparu arbenigedd ar wastraff, a bydd yn goruchwylio ac yn rheoli'r gwaith cyflawni.

Un o'r rolau newydd allweddol yw gweithio gyda chymunedau a allai fod yn awyddus i roi cartref i CGD. Bydd RWM yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau, gan ddefnyddio proses sy'n seiliedig ar ganiatâd, i greu Gweithgorau a Phartneriaethau Cymunedol a fydd yn arwain at brawf llwyddiannus o gefnogaeth y cyhoedd.

## Targedau corfforaethol RWM

I sicrhau bod modd mesur RWM ar y gwaith o gyflawni ei brif weithgareddau mae'r NDA, fel cyfranddaliwr, wedi cymeradwyo Cynllun Gweithredu RWM sy'n nodi targedau ac ymrwymiadau allweddol.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd wyth o'r naw targed wedi cael eu cwblhau'n llawn ac wedi cael eu cadarnhau gan dîm Archwilio'r NDA.

Collwyd un o'r Targedau Corfforaethol, sef "Darparu'r cyfleusterau hanfodol, gan gynnwys symud i swyddfa Harwell, cael lle yn Llundain, a gwasanaethau cefnogol sy'n briodol ar gyfer corff cyflawni seilwaith pwysig". Gobeithir symud i swyddfeydd RWM ar eu newydd wedd ym mis Mehefin 2019, a bydd yr angen am le rhanbarthol yn cael ei ail-werthuso.

## Perfformiad ariannol

Mae RWM yn defnyddio system rheoli prosiect sy'n seiliedig ar ddosbarthu'r cyllid, a ddarperir gan yr NDA, drwy gyfarwyddwyr gweithredol atebol i brosiectau cymeradwy. Defnyddir adolygiadau misol a chwarterol o berfformiad prosiectau, a'r amcangyfrif gorau diweddaraf o'u rhagolygon ar gyfer canlyniadau diwedd y flwyddyn, i reoli'r sefyllfa ariannol. Mae portffolio prosiectau RWM yn cael ei addasu drwy gydol y flwyddyn, i sicrhau bod yr adnoddau ariannol a ddarperir gan yr NDA yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosib.

Yn erbyn cyfanswm llinell gyllido'r NDA – sef £36.348m – gydag incwm arall o £1.514m, roedd trosiant 2018/19 yn £35.154m. Mae hyn yn golygu bod 92.8% o'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio.

Darllenwch Ddatganiadau Ariannol 2018-19 ar dudalen 24

| Targedau Corfforaethol | Statws |
|---|---|
| 1. Cwblhau'r gwaith paratoi i lansio'r broses leoli, a dechrau ei rhoi ar waith | Wedi'i gwblhau |
| 2. Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol Strategol (SOC) ar gyfer cam Nodweddu Safle CGD, i'w gymeradwyo gan yr NDA | Wedi'i gwblhau |
| 3. Gweithio gyda chynhyrchwyr gwastraff i ddatblygu atebion rheoli gwastraff sy'n gydnaws â gofynion CGD, a sicrhau bod cofnodion wedi cael eu cymeradwyo | Wedi'i gwblhau |
| 4. Cyflwyno rhaglen Gwastraff Uwch ei Actifedd RWM i gefnogi Thema Strategol yr NDA – Rheoli Gwastraff Integredig | Wedi'i gwblhau |
| 5. Llunio rhaglen amserlenni a chostau diwygiedig ar lefel rhaglen i'r CDG, gyda'r ansicrwydd cysylltiedig, er mwyn cytuno gyda'r NDA | Wedi'i gwblhau |
| 6. Cyfeirio Adnoddau a sicrhau'r gallu i gefnogi'r broses o leoli CGD, Rheoli Gwastraff a datblygu achos busnes | Wedi'i gwblhau |
| 7. Datblygu ac integreiddio'r holl gynlluniau datblygu sefydliadol mewn un rhaglen sy'n golygu bod modd cyflawni rhaglen y CGD, a sbarduno'r broses honno yn unol â'r cynllun | Wedi'i gwblhau |
| 8. Darparu'r cyfleusterau hanfodol, gan gynnwys symud i swyddfa Harwell, cael lle yn Llundain, a gwasanaethau cefnogol sy'n briodol ar gyfer cyflawni seilwaith pwysig | Heb ei gwblhau |
| 9. Datblygu cynlluniau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y mae modd eu cyflawni ac sy'n gynhwysfawr, ystyried arolygon o ystad gyfan yr NDA, a sicrhau'r gwelliannau y cytunwyd arnynt o ran perfformiad | Wedi'i gwblhau |

## Risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

Mae risgiau RWM a'r materion sy'n achosi ansicrwydd yn cael eu hadolygu bob mis fel rhan o'r broses rheoli risg, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn goruchwylio hyn yn chwarterol. Mae RWM yn rhoi sylw'n benodol i'r risgiau a'r ansicrwydd sydd o fewn ei reolaeth a'i ddylanwad, a'r rheini y tu hwnt i'w ddylanwad a allai gael effaith sylweddol ar y busnes. Dyma'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu RWM yn y tymor byr i ganolig, a'r gweithgareddau cysylltiedig i'w lliniaru:

**Risg:** Bod RWM yn methu denu a dal gafael ar gymunedau yn ystod y Broses Leoli
**Cam Lliniaru:**
- Datblygu cynnig cadarn i ddenu cymunedau posib, a chydweithio â nhw.
- Sefydlu tîm allgymorth sydd wedi'i hyfforddi'n llawn i helpu'r broses o gydweithio â chymunedau.
- Recriwtio partner ymgyrchu, a sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

**Risg:** Materion iechyd, diogelwch, diogeledd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gyflawni
**Cam Lliniaru:**
- Gweithredu cynllun gwella Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Amgylcheddol, gan arwain at lywodraethu gweithgareddau'n briodol.


**Risg:** Her gyfreithiol yn deillio o weithgarwch RWM neu effeithiau ehangach y broses leoli ar ei allu i gyflawni ei genhadaeth
**Cam Lliniaru:**
- Cynnal adolygiadau cyfreithiol, recriwtio cymorth cyfreithiol ychwanegol yn fewnol, a chynnal adolygiad effeithiolrwydd.

**Risg:** Nid yw RWM yn llwyddo i drosglwyddo i gorff cyflawni addas ar gyfer lansio, ac yna cyflawni, y broses Leoli
**Cam Lliniaru:**
- Parhau i adolygu a datblygu gallu sefydliadol RWM yn unol â gofynion camau presennol y rhaglen, a chamau'r rhaglen yn y dyfodol.
- Cynyddu gallu a chapasiti drwy recriwtio 35 o aelodau newydd o staff, gyda chynlluniau ar waith i recriwtio 30 arall cyn y cam nesaf.
- Datblygu diwylliant sefydliadol gan ystyried adolygiadau.

**Risg:** Bydd prinder adnoddau, neu ddiffyg ymrwymo adnoddau (e.e. capasiti, galluedd, cyllid, cymorth cadwyn gyflenwi) yn effeithio ar gyflawni'r rhaglen
**Cam Lliniaru:**
- Sicrhau bod Achos Busnes y Rhaglen CGD yn cael ei gymeradwyo, a bod y sefydliad yn cael adnoddau priodol.

**Risg:** Bydd rhaglen dechnegol RWM yn cael ei thanseilio, gan effeithio ar ei enw da a'i waith cyflawni
**Cam Lliniaru:**
- Cyflawni'r rhaglen dechnegol i gefnogi cynnydd y gwaith ymgysylltu â'r gymuned a gwerthuso safleoedd, a darparu cyngor i gynhyrchwyr gwastraff.
- Craffu'n rheolaidd ar waith RWM.
- Ymgysylltu yn yr arena ryngwladol i rannu gwybodaeth o raglenni CGD eraill.

Cafodd yr adroddiad hwn ei gymeradwyo gan y bwrdd ar 13.11.2019, a'i lofnodi ar ei ran gan:



**Yr Athro Malcolm Morley OBE**
Y Cadeirydd

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr
- Datganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr
- Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr**
**Rhif Cofrestru 08920190**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad ar gyfer Radioactive Waste Management Limited ("RWM" neu'r "Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019:

**Cyfarwyddwyr RWM**
Mae'r Cyfarwyddwyr a fu'n gwasanaethu RWM yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi isod:

Malcolm Morley OBE (Y Cadeirydd)
Mike Bowman
Melanie Brownridge (ymddiswyddodd ar 30 Ebrill 2019[9])
John Corderoy
Kiernan Doherty (ymddiswyddodd ar 30 Ebrill 2018)
Peter Lock
Ann McCall
Bruce McKirdy
David Prout CB (penodwyd ar 24 Gorffennaf 2018)
Claes Thegerstrom
Paul Vallance (ymddiswyddodd ar 14 Ebrill 2018)
Andrew Van Der Lem (penodwyd ar 16 Ebrill 2018)
Karen Wheeler CBE (penodwyd ar 24 Gorffennaf 2018)

---

[9] *Ar ôl cyfnod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19*

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

### Gweithwyr – cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae RWM yn wynebu tipyn o dasg. Mae'n hollbwysig cyfathrebu'n effeithiol â chymunedau, ac mae RWM wedi treulio amser yn adeiladu'r tîm, ac wedi cynyddu nifer y staff 27% eleni (35 o bobl). Erbyn hyn, mae RWM yn nes at gael yr adnoddau angenrheidiol ar waith er mwyn cyflawni gweithgareddau allweddol, ac mae'n adeiladu tuag at gael y galluedd ar gyfer camau pellach yn ei waith.

Mae RWM wedi asesu pa alluoedd sefydliadol sydd ei angen arno ar gyfer pob cam o'r rhaglen CGD, ac mae wedi mapio'r rhain mewn rhaglen ddatblygu sefydliadol ffurfiol. Bydd hyn yn dal yn rhan fawr o'n rhaglen waith dros y blynyddoedd nesaf.

Rhaid i RWM sicrhau hefyd ei fod yn dal i ddatblygu ei ddiwylliant a'i werthoedd. Mae 'diogel' nawr yn werth hollbwysig, sy'n adlewyrchu ymrwymiad RWM i gyrraedd y safonau uchaf o ddiogelwch, diogeledd ac amddiffyniad amgylcheddol.

Mae'r sefydliad wedi cymryd sawl cam i sicrhau ei fod yn cefnogi ei staff yn llwyr, er mwyn iddyn nhw allu rhoi o'u gorau yn eu swyddi. Mae wedi cynnal hyfforddiant ar 'ragfarn ddiarwybod', ac mae wedi cyflwyno sesiynau cynefino ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff newydd. Mae hefyd wedi cyflwyno trefniadau newydd i weithio'n hyblyg, a llwyddodd i gael y Dyfarniad Efydd ar gyfer 'Gwerthuso Amrywiaeth, Cynhwysiant a Thalent' gan Rwydwaith y Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Nid yw RWM yn gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, tarddiad ethnig, cred athronyddol neu grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, aelodaeth o undeb llafur nac anabledd. Mae ceisiadau am swydd gan bobl anabl yn cael eu hystyried yn llawn bob amser, gan gadw mewn cof ddoniau a galluoedd yr ymgeisydd dan sylw. Os bydd aelodau o staff yn datblygu anabledd, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eu cyflogaeth â RWM yn parhau, a bod hyfforddiant priodol yn cael ei drefnu. Mae'n bolisi gan RWM y dylai pobl anabl gael yn union yr un cyfleoedd o ran hyfforddiant, datblygu gyrfa a dyrchafiad â phobl sydd ddim yn anabl, i'r graddau y mae hynny'n bosib.



Rydym yn ymgynghori â gweithwyr a'u cynrychiolwyr ar bob lefel, gyda'r nod o sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau nhw, a bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o berfformiadau ariannol ac economaidd RWM. Rydym yn dal i gyfathrebu â'r holl weithwyr drwy dudalennau mewnrwyd RWM, cylchlythyrau mewnol a grwpiau briffio, a drwy rannu'r Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol.

Mae data RWM am fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn dangos bod cyfradd gymedrig menywod fesul awr 16% yn is na chyfradd y dynion. Nodir isod yr amrywiaeth o ran rhywedd ymysg cyfarwyddwyr a staff RWM ar ddiwedd y flwyddyn:

| | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr RWM | 3 | 8 |
| Gweithwyr mewn uwch swyddi gweithredol eraill | dim | 3 |
| Gweithwyr eraill | 45 | 89 |

### Offerynnau Ariannol

Mae RWM yn ariannu ei weithgareddau'n bennaf drwy gyllid gan yr NDA (96%). Mae hynny'n cael ei ategu gan incwm a ddaw gan gynhyrchwyr gwastraff am ddarparu cyngor ar becynnu a chludo, a grantiau ymchwil (4%).

Yn unol â thelerau'r cytundeb cyllido â'r NDA, mae RWM yn cael ei gyllid cyn y bydd angen y cyllid arno. Mae'r arian yn cael ei gadw mewn cyfrifon sy'n cael eu rheoli gan Wasanaethau Bancio'r Llywodraeth, ac felly maent ar gael i'r Trysorlys. Mae cytundeb cyllid yr NDA hefyd yn darparu mynediad at drefniadau cyllid brys ar gyfer gofynion llif arian tymor byr os oes angen. Felly, does dim angen cyfleuster gorddrafft ar RWM.

Mae rhwymedigaethau ac asedau ariannol, fel dyledwyr masnach a chredydwyr masnach, yn deillio'n uniongyrchol o weithgareddau gweithredol RWM.



### Difidendau

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymell bod difidend yn cael ei dalu i gyfranddalwyr.

### Digwyddiadau ers Dyddiad y Fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen wedi cael effaith sylweddol ar y canlyniadau a adroddwyd.

### Rhwymedigaethau'r Cyfarwyddwyr

Dan yr Erthyglau Cymdeithasu, mae, ac roedd, Cyfarwyddwyr RWM yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 yn cael eu hindemnio gan RWM rhag atebolrwydd a chostau a gafwyd mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau neu ag arfer eu pwerau, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Roedd y Ddeddf hon mewn grym pan gafodd y Datganiadau Ariannol eu cymeradwyo, tudalen 24.

### Argymhellion Adolygiad Macpherson

Mae gan RWM fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer categoreiddio, pennu, datblygu a sicrhau'r holl fodelau rhifiadol hanfodol-i-fusnes. Mae RWM yn ceisio gwella ei weithdrefnau presennol yn barhaus, ac mae'r gweithdrefnau ar gyfer modelau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn briodol ac yn cyd-fynd ag argymhellion Adolygiad Macpherson.

### Busnes Byw

Yn sgil dibyniaeth RWM ar gyllid y Llywodraeth drwy'r NDA, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried: canlyniad Adolygiad o Wariant 2015; canlyniad posib proses yr adolygiad o wariant sydd ar y gweill; sut byddai RWM yn addasu ei raglen petai'n cael llai o gyllid gan yr NDA, ac mae'r Cyfarwyddwyr yn teimlo'n gyfforddus y byddai RWM yn dal yn gallu gweithredu fel busnes byw.

O ganlyniad i hynny, mae'r Cyfarwyddwyr yn credu bod RWM mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus er gwaethaf y rhagolygon economaidd ansicr ar hyn o bryd, ac mae ganddynt ddisgwyliad rhesymol bod gan RWM ddigon o adnoddau i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Yn unol â hynny, maent yn dal i fabwysiadu'r sail busnes byw wrth baratoi'r Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol.


Mae gweithgareddau perfformiad 2018-19 RWM, ynghyd â'r rhagolygon am y pum mlynedd nesaf, yn cael eu disgrifio yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 10-13.

### Datganiad y Cyfarwyddwyr ynghylch Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilydd

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn aelodau o'r Bwrdd pan gafodd Adroddiad y Cyfarwyddwyr ei gymeradwyo wedi'u rhestru ar dudalen 2. Ar ôl holi cyd-Gyfarwyddwyr ac archwilydd y Cwmni, mae pob un o'r Cyfarwyddwyr hyn yn cadarnhau:

- Nad oes unrhyw wybodaeth (hynny yw, gwybodaeth y mae ei hangen ar archwilydd y Cwmni mewn perthynas â'r gwaith o baratoi ei adroddiad) nad yw archwilydd y Cwmni yn ymwybodol ohoni, hyd y gŵyr pob Cyfarwyddwr; a
- Bod pob Cyfarwyddwr wedi cymryd y camau y gellid disgwyl yn rhesymol i Gyfarwyddwr eu cymryd i fod yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilydd y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cafodd yr adroddiad hwn ei gymeradwyo gan y bwrdd ar 13.11.2019, a'i lofnodi ar ei ran gan:



**Yr Athro Malcolm Morley OBE**
Y Cadeirydd

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol y Deyrnas Unedig.

Mae'r gyfraith cwmnïau yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol). O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff y Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni, ac o elw neu golled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- datgan a yw'r Safonau Cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodion y Cwmni a datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cwmni ac, felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondeb arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw gwefan y Cwmni, ac am sicrhau bod y cynnwys yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.





# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Radioactive Waste Management Limited (y “Cwmni”) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, sy’n cynnwys y Datganiad Incwm, y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti, a’r Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 101 “Fframwaith Datgelu Llai” (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa’r Cwmni ar 31 Mawrth 2019, ac o'i ganlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Sail y Farn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (y DU)) a’r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio’r adran o'n hadroddiad sy'n ymwneud â datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y Cwmni yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi’i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer ein barn.

### Casgliadau’n ymwneud â Busnes Byw

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae ISAs (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi:

- os nad yw defnydd y Cyfarwyddwyr o sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw’r Cyfarwyddwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu’r Cwmni i barhau i fabwysiadu’r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o’r dyddiad pryd yr awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth Arall

Y Cyfarwyddwyr sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio’r datganiadau ariannol a’n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i’r graddau y gwnaed hynny’n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o’r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth rydym ni wedi’i chael yn yr archwiliad, neu a yw’n ymddangos bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae’n ofynnol i ni bennu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys o’r wybodaeth arall. Ar sail y gwaith rydym wedi’i wneud, os byddwn yn dod i’r casgliad bod camddatganiad o bwys o’r wybodaeth arall, mae’n rhaid i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i’w adrodd i’r perwyl hwn.

## Barn ar Faterion Eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Strategol ac yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae'n rhaid inni adrodd arnynt drwy Eithriad

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Strategol nac yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i ni, o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, roi gwybod i chi os ydym yn credu:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai o daliadau'r Cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 20, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyfarwyddwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Cwmni i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni fo'r cyfarwyddwyr un ai'n bwriadu diddymu'r Cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros Archwilio'r Datganiadau Ariannol

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn:
**https://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**.
Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

## Defnyddio ein Hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb, ac eithrio i'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Charlene Lancaster (Uwch-archwilydd Statudol)**
ar ran ac yn enw Mazars LLP
Chartered Accountants and Statutory Auditor
One St Peter's Square
Manceinion M2 3DE

14.11.2019

# Datganiadau Ariannol 2018-19

**Mae'r adran hon yn cynnwys:**

- **Y Datganiad Incwm**
- **Y Fantolen**
- **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol**



# Y Datganiad Incwm

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 2019 | 2018 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Trosiant | 4 | 35,154,072 | 29,415,815 |
| Taliadau allanol eraill | | (19,888,135) | (16,231,118) |
| Costau staff | 7 | (13,649,988) | (12,351,042) |
| Taliadau gweithredol eraill | | (1,807,827) | (978,625) |
| Incwm gweithredol arall | | 191,878 | 144,970 |
| **Elw gweithredol** | 5 | – | – |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn treth** | | – | – |
| **Treth ar elw neu golled ar weithgareddau arferol** | 8 | – | – |
| **Elw ar weithgareddau arferol ar ôl treth ar gyfer y cyfnod ariannol** | | – | – |

Mae'r holl symiau'n deillio o weithrediadau sy'n parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 29-35 yn rhan hanfodol o'r datganiadau ariannol hyn.

# Y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Nid oes unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar wahân i'r canlyniadau a welir yn y datganiad incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, neu'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Felly, nid oes datganiad o incwm cynhwysfawr wedi cael ei baratoi ar wahân.

# Y Fantolen

## ar 31 Mawrth 2019. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 08920190

| | Nodyn | 2019 | Ailddatgan 2018[10] |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr masnach | | 290,256 | 15,272 |
| Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp | 14 | 287,889 | 491,767 |
| Dyledwyr eraill | | 843,225 | 809,731 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | | 402,702 | 2,370,284 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 8,306,780 | 5,080,711 |
| | | **10,130,852** | **8,767,765** |
| **Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| Credydwyr masnach | 9 | (544,323) | (1,627,053) |
| Credydwyr eraill, gan gynnwys trethi a nawdd cymdeithasol | | (528,941) | (316,105) |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | | (9,057,587) | (6,824,606) |
| | | **(10,130,851)** | **(8,767,764)** |
| **Asedau cyfredol net** | | 1 | 1 |
| **Asedau net** | | **1** | **1** |
| **Cyfalaf ac arian wrth gefn** | | | |
| Cyfalaf cyfranddaliadau a alwyd | 12 | 1 | 1 |
| Cyfrif elw a cholled | | – | – |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **1** | **1** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29-35 yn rhan hanfodol o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 24-28 eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 13.11.2019, ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Malcolm Morley

**Yr Athro Malcolm Morley OBE,**
Cadeirydd

*[10] I sicrhau cysondeb ag endidau eraill sy'n adrodd yng ngrŵp NDA, nid yw Cwmnïau Trwyddedau Safleoedd sy'n eiddo i Sefydliadau Rhiant-gorff sy'n gweithredu dan gontract gyda'r NDA yn cael eu trin mwyach fel ymgymeriadau grŵp. O ran 2018, mae hyn wedi arwain at ailddatgan "Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp" a "Dyledwyr masnach".*

# Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti ar 31 Mawrth 2019

| | Cyfalaf cyfranddaliadau a alwyd | Cyfrif elw a cholled | Cyfanswm ecwiti |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **1** | – | **1** |
| Elw ar gyfer y cyfnod ariannol | – | – | – |
| Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **1** | – | **1** |
| Elw ar gyfer y cyfnod ariannol | – | – | – |
| Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **1** | – | **1** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29-35 yn rhan hanfodol o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

### 1. Awdurdodi Datganiadau Ariannol a Datganiad Cydymffurfiaeth ag FRS101

Cafodd datganiadau ariannol Radioactive Waste Management Limited (RWM) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar ran y Bwrdd ar 25 Mehefin 2019, a chafodd y fantolen ei llofnodi ar ran y Bwrdd gan Malcolm Morley OBE. Mae Radioactive Waste Management Limited wedi'i ymgorffori a'i leoli yng Nghymru a Lloegr.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â Fframwaith Datgelu Llai, Safon Adrodd Ariannol 101 (FRS101), ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) yw'r ymgymeriad rhiant uniongyrchol. Mae datganiadau ariannol cyfunol yr NDA ar gael i'r cyhoedd, a gellir eu cael o'i bencadlys yn Herdus House, Westlakes Science and Technology Park, Moor Row, Cumbria, CA24 3HU. Ym marn y Cyfarwyddwyr, y rhai sy'n rheoli RWM yn y pen draw yw Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Cyflwynir datganiadau ariannol RWM mewn Sterling. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu y mae RWM wedi'u mabwysiadu i'w gweld yn Nodyn 3.

### 2. Mabwysiadu Dehongliadau a Safonau Newydd a Diwygiedig

#### 2.1 Diwygiadau, Dehongliadau a Safonau Newydd

Dyma'r Safon newydd sy'n effeithio ar RWM, ac sydd wedi cael ei mabwysiadu yn y datganiadau ariannol blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018:

- IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid (IFRS 15).

Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at effaith o bwys yn newid polisi cyfrifyddu RWM.

Ni ddisgwylir y bydd Dehongliadau a Safonau newydd a diwygiedig eraill a gyhoeddir gan yr IASB, ac a fydd yn berthnasol am y tro cyntaf yn y datganiadau ariannol blynyddol nesaf, yn effeithio ar RWM oherwydd eu bod naill ai ddim yn berthnasol i weithgareddau RWM, neu fod angen arferion cyfrifyddu ar eu cyfer sy'n gyson â pholisïau cyfrifyddu presennol RWM.

### 3. Polisïau Cyfrifyddu

#### 3.1 Sail Paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw, o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae canlyniad asesiad y Cyfarwyddwyr o RWM fel busnes byw yn cael ei grynhoi yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar dudalen 16.

Mae RWM wedi mabwysiadu FRS101 ers iddo gael ei ffurfio, ac ar gyfer pob cyfnod a gyflwynir. Mae'r polisïau cyfrifyddu sy'n dilyn yn nodi'r polisïau hynny sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Fel y caniateir gan FRS 101, mae RWM wedi manteisio ar yr esemptiadau datgelu sydd ar gael o dan y safon mewn perthynas â'r canlynol:

**a)** gofynion IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau';

**b)** gofynion paragraffau 134-136 IAS 1, 'Cyflwyniad Datganiadau Ariannol';

**c)** gofynion IAS 7, 'Datganiad Llifoedd Arian';

**d)** gofynion paragraffau 30 a 31 IAS 8 'Amcangyfrifon a Gwallau Cyfrifyddu'.

#### 3.2 Penderfyniadau a'r Prif Ffynonellau o Ansicrwydd Amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a gofnodir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen, a'r symiau a gofnodir ar gyfer refeniw a threuliau yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â gwerth y gwaith a wnaed neu'r gwasanaethau a ddarparwyd. Nid ystyrir bod unrhyw amcangyfrif unigol neu ddyfarniad yn bwysig; ond mae natur amcangyfrif yn golygu y gallai'r canlyniadau hynny fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny.

## 3.3 Polisïau Cyfrifyddu Pwysig

**a) Asedau Anniriaethol**
Mae costau ymchwil a datblygu yn cael eu nodi fel maent wedi codi, gan fod unrhyw asedau neu hawliau sy'n codi yn perthyn i'r NDA.

**b) Asedau Sefydlog Diriaethol**
Mae'r risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig â gwariant RWM ar asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol yn perthyn i'r NDA. Mae'r gwariant hwn yn cael ei drin fel gwariant refeniw yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r gwariant wedi cael ei gyfalafu yn natganiadau ariannol yr NDA.

**c) Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau**
Cydnabyddir darpariaeth pan fydd gan RWM rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol; pan fydd yn debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Os yw'r effaith yn un o bwys, mae llifoedd arian a ddisgwylir yn y dyfodol yn cael eu disgowntio drwy ddefnyddio cyfradd cyn-treth gyfredol sy'n adlewyrchu, lle bo'n briodol, y risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Pan fydd RWM yn disgwyl i'r rhwymedigaeth gyfan, neu i ran ohoni, gael ei had-dalu, bydd yr ad-daliad yn cael ei gydnabod fel ased ar wahân – ond dim ond pan fydd RWM bron yn gwbl sicr y bydd modd adennill y rhwymedigaeth honno. Wrth i'r gwariant sy'n ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth gael ei gyflwyno yn y datganiad incwm, ni fydd yn cynnwys ad-daliad. Wrth ddisgowntio, mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth oherwydd y broses o ddad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel cost cyllid.

**d) Offerynnau Ariannol**
Mae asedau ariannol RWM yn cynnwys arian, symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill.

**e) Dyledwyr masnach a Dyledwyr eraill**
Ar gyfer dyledwyr masnach, sydd fel arfer â thelerau 30 diwrnod, gwerth yr anfoneb wreiddiol neu'r swm i'w adennill fydd yn cael ei gydnabod a'i gofnodi – pa un bynnag yw'r lleiaf. Pan fo gwerth ariannol amser yn bwysig, mae symiau derbyniadwy yn cael eu cario am gost wedi'i hamorteiddio. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer amhariad yn cael ei gwneud drwy elw a cholled pan fydd tystiolaeth wrthrychol na fydd RWM yn gallu adennill balansau yn llawn. Mae balansau'n cael eu diddymu pan asesir ei bod yn annhebygol y bydd yr arian yn cael ei adennill.

**f) Arian yn y Banc ac mewn Llaw**
Mae adneuon tymor byr ac arian ar y fantolen yn golygu arian yn y banc.

**g) Treth Incwm**
Mae'r ymrwymiadau a'r asedau treth cyfredol yn cael eu mesur yn ôl faint y disgwylir iddynt fod wedi'u hadfer neu eu talu gan yr awdurdodau trethiant, a hynny ar sail y cyfraddau treth a'r cyfreithiau sydd ar waith neu a fydd ar waith ar ddyddiad y fantolen.

Mae treth incwm yn cael ei godi neu ei gredydu i incwm cynhwysfawr arall os yw'n ymwneud ag eitemau sy'n cael eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Fel arall, mae treth incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm.

**h) Pensiynau a Buddion eraill ar ôl Cyflogaeth**
Mae gweithwyr RWM yn cael buddion pensiwn drwy Drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Sifil ac Arall (SCOPS) a elwir yn "Alpha" yn gynlluniau buddion wedi'u diffinio, amlgyflogwr, heb eu hariannu, ond nid yw RWM yn gallu canfod ei gyfran o'r asedau a'r ymrwymiadau gwaelodol. Mae actiwari'r cynllun wedi prisio Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 31 Mawrth 2012. Mae'r manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, mae'r trefniadau pensiwn hyn yn cael eu trin fel cynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae cyfanswm y gost sy'n cael ei chofnodi ar gyfer gwariant, sef £1,613,809 (2018: £1,480,659) yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynlluniau hyn gan RWM, ar gyfraddau a nodwyd yn rheolau'r cynllun. Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn weddill ar 31 Mawrth 2019 (2018: £dim).

**i) Cydnabod Refeniw**
Caiff refeniw ei gydnabod i'r graddau y mae'n debygol y bydd y buddion economaidd yn llifo i RWM, ac y bydd modd mesur y refeniw yn ddibynadwy. Mae refeniw yn cael ei fesur ar sail gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn, heb gynnwys disgowntiau, ad-daliadau, treth ar werth a threthi eraill ar werthiannau.

**j) Darparu Gwasanaethau**
Mae refeniw gan yr NDA ar gyfer darparu rhaglen waith RWM y cytunwyd arni yn cael ei gydnabod dim ond i'r graddau y mae modd adfer y costau.

Mae'r refeniw o ddarparu asesiad gwaredu a chyngor ynghylch trafnidiaeth yn cael ei gydnabod drwy gyfeirio at y cam cwblhau. Pan na ellir mesur yn ddibynadwy beth yw canlyniad y contract, nid yw'r refeniw'n cael ei gydnabod ond i'r graddau y mae modd adfer y treuliau a gydnabuwyd.

| **4. Trosiant**<br>**Mae'r trosiant sy'n cael ei gydnabod yn y datganiad incwm yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Darparu gwasanaethau i'r rhiant-gwmni | 34,040,276 | 28,085,708 |
| Darparu gwasanaethau i gynhyrchwyr gwastraff | 1,113,796 | 1,330,107 |
| | **35,154,072** | **29,415,815** |

| **Trosiant yn ôl ardal ddaearyddol:** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Y Deyrnas Unedig | 35,154,072 | 29,415,815 |
| Trosiant | **35,154,072** | **29,415,815** |

| **5. Elw Gweithredol**<br>**Nodir hyn ar ôl codi:** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau ymchwil a datblygu wedi'u diddymu | **6,143,236** | **4,856,718** |

| **6. Taliadau'r Archwilydd**<br>**Talodd RWM y symiau canlynol i'w archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol, ac am wasanaethau eraill a ddarparwyd i RWM.** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Archwilio'r datganiadau ariannol | **19,000** | **22,000** |

Nid yw archwilydd RWM wedi darparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn ystod y cyfnod.

## 7. Costau Staff a Thaliadau Cyfarwyddwyr

| 7.1 Costau Staff | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 10,757,424 | 9,719,524 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,278,756 | 1,150,859 |
| Costau pensiwn eraill | 1,613,808 | 1,480,659 |
| | **13,649,988** | **12,351,042** |

Mae £1,613,808 (2018: £1,480,659) wedi'i gynnwys mewn costau pensiwn eraill ar gyfer cynlluniau â buddion wedi'u diffinio.

| **Dyma oedd nifer y gweithwyr bob mis ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod adrodd:** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Ymchwil a datblygu | 62 | 62 |
| Lleoli ac Ymgysylltu | 17 | 14 |
| Gweinyddu | 49 | 41 |
| | **128** | **117** |

| 7.2 Taliadau Cyfarwyddwyr | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Taliadau Cyfarwyddwyr | 845,737 | 648,731 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 126,043 | 105,103 |
| Nifer y cyfarwyddwyr sy'n cronni buddion o dan y canlynol: Cynlluniau â buddion wedi'u diffinio | 4 | 4 |

| **7.3 Y Cyfarwyddwr Uchaf ei Gyflog**<br>**O ran y cyfarwyddwr uchaf ei gyflog:** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Taliad cyfunol | 209,105 | 203,585 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 36,880 | 36,458 |

| **8. Trethi** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Treth Gorfforaeth y Deyrnas Unedig | – | – |

### 9. Credydwyr Masnach

Nid yw credydwyr masnach yn talu llog, ac maent fel arfer yn cael eu setlo cyn 30 diwrnod fan bellaf. Nid yw credydwyr eraill yn talu llog, a'r cyfnod cyfartalog yw 1 mis.

| **10. Ymrwymiadau o dan Lesoedd Gweithredol**<br>**Ar 26 Gorffennaf, dechreuodd RWM ar gytundeb les i logi car rhannu. Mae'r cytundeb hwn am gyfnod penodol o 36 mis a 30,000 fydd cyfanswm y milltiroedd. Ar ôl hynny bydd ffi yn daladwy am fwy o filltiroedd.** | Llai na blwyddyn | 2 - 5 mlynedd | Mwy na 5 mlynedd |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Y taliadau les lleiaf yn y dyfodol | 973 | – | – |

### 11. Offerynnau Ariannol

Mae rhwymedigaethau ac asedau ariannol RWM yn cynnwys dyledwyr masnach a chredydwyr masnach sy'n deillio'n uniongyrchol o weithgareddau gweithredol RWM.

| 12. Cyfalaf Cyfranddaliadau sydd wedi cael eu Hawdurdodi, eu Dyroddi a'u Galw | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| *Wedi'u Hawdurdodi*<br>Cyfranddaliadau cyffredin o £1 yr un | 1 | 1 |
| *Wedi'u neilltuo, eu galw a'u talu'n llawn*<br>Cyfranddaliadau cyffredin o £1 yr un | 1 | 1 |

Mae gan RWM un dosbarth o gyfranddaliadau cyffredin. Mae hawliau pleidleisio yn gysylltiedig â chyfrannau cyffredin, ond nid oes ganddynt unrhyw hawliau i unrhyw incwm sefydlog nac unrhyw ddewisiadau eraill sydd ynghlwm wrthynt. Nid oedd unrhyw drefniadau talu ar sail cyfrannau yn bodoli yn ystod y cyfnod adrodd.

## 13. Pensiynau a Buddion eraill ar ôl Cyflogaeth

Darperir buddion pensiwn drwy Drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelod o un o bedwar cynllun diffiniedig: naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (Classic, Premium neu Classic Plus); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (Nuvos). Ers 1 Ebrill 2015, mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi symud tuag at gynllun newydd 'gyrfa gyfan' (Alpha) ar gyfer cronni buddion pensiwn ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â Deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.

Mae cyfraniadau'r cyflogai ar gyfer pob cynllun wedi'u gosod ar y gyfradd sydd yn y tabl isod:

| Enillion Pensiynadwy Blynyddol (ar sail cyfwerth ag amser llawn) | Aelodau sydd yn Classic neu a symudodd i Alpha o Classic | Yr holl aelodau eraill |
|---|---|---|
| | Cyfraniadau 2019 | Cyfraniadau 2019 |
| Hyd at £21,636 | 4.60% | 4.60% |
| £21,637 - £51,515 | 5.45% | 5.45% |
| £51,516 - £150,000 | 7.35% | 7.35% |
| £150,001 a mwy | 8.05% | 8.05% |

Mae buddion yn Classic yn cronni ar gyfradd o 1 / 80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai'n ymddeol. Ar gyfer Premium, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1 / 60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun Classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae Classic Plus yn hybrid gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel Classic ac mae buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu gweithio allan fel yn Premium.

Yn Nuvos ac Alpha mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod pryd mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif y pensiwn mae'r aelod wedi'i ennill yn cael credyd o 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn unol â Deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ymhob achos, caiff yr aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn i aelodau Classic, Premium a Classic Plus, 65 i aelodau Nuvos, neu'r hwyraf o blith 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod i aelodau Alpha. Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan ganlynol **www.civilservice.gov.uk/pensions**

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig eraill

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd RWM drafodion, wrth gyflawni busnes arferol, gyda phartïon cysylltiedig eraill. Dyma'r trafodion a gafwyd, a'r balansau masnachu sy'n ddyledus ar 31 Mawrth gyda phartïon cysylltiedig eraill:

| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019: | Gwerthiannau i'r parti cysylltiedig | Pryniannau gan y parti cysylltiedig | Symiau sy'n ddyledus gan y parti cysylltiedig | Symiau sy'n ddyledus i'r parti cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear | 34,040,276 | 2,273,251 | 144,884 | – |
| Is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr i'r NDA | 388,729 | 74,612 | 143,005 | – |
| Cyfanswm y partïon cysylltiedig | 34,429,005 | 2,347,863 | 287,889 | – |

| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018: | Gwerthiannau i'r parti cysylltiedig | Pryniannau gan y parti cysylltiedig | Symiau sy'n ddyledus gan y parti cysylltiedig | Symiau sy'n ddyledus i'r parti cysylltiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear | 28,085,708 | 932,584 | 430,996 | – |
| Is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr i'r NDA | 418,483 | 498,266 | 60,771 | – |
| Cyfanswm y partïon cysylltiedig | 28,504,191 | 1,430,850 | 491,767 | – |

Er mwyn sicrhau cysondeb ag endidau eraill sy'n adrodd yn grŵp yr NDA, nid yw Cwmnïau Trwyddedau Safleoedd sy'n eiddo i Sefydliadau Rhiant-gorff yn gweithredu dan gontract gyda'r NDA bellach yn cael eu trin fel ymgymeriadau grŵp. O ran 2018, mae hyn wedi arwain at ailddatgan trafodion partïon cysylltiedig.

## 15. Ymgymeriad Grŵp Terfynol

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yw ymgymeriad rhiant uniongyrchol a therfynol RWM. Mae RWM wedi'i gynnwys yn y cyfrifon grŵp hyn sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae copïau o'r cyfrifon grŵp ar gael yn **https://www.gov.uk/government/organisations/nuclear-decommissioning-authority** .

Nodiadau



## Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am waith y DU i ddelio â gwastraff ymbelydrol

E-bost **gdfenquiries@nda.gov.uk**

Rhif ffôn **03000 660 100**

Dilynwch ni ar Twitter

**@rwm_gdf_uk**
**@rwm_community**

neu ewch i wefan yr ymgyrch

**geologicaldisposal.campaign.gov.uk**

Radioactive Waste Management